

FFEDERASIWN CLYBIAU FFERMWYR IFANC CYMRU



CYNGOR
DYDD IAU, 13eg MAI, 2021
'ZOOM'
7.00yh

COFNODION

CADEIRYDD: Miss Katie Davies

IS-GADEIRYDD: Miss Caryl Haf

PRESENNOL: Katie Davies, (Cadeirydd y Cyngor); Caryl Haf, (Is-Gadeirydd y Cyngor); Katie Court, (Cadeirydd Cystadlaethau)); Kathryn Jones, (Cyllid a Rheoli); Niall Evans, (Cadeirydd Rhyngwladol); Aled Thomas, (Cadeirydd Digwyddiadau a Marchnata); Clare James, (Cadeirydd Materion Gwledig); Elin Rattray, (Cadeirydd Fforwm Ieuenctid); Sian Healey a Carwyn Pugh, (Brycheiniog); Iestyn Owen, Carys Thomas a Hefin Evans, (Sir Gâr); Eyllt Ellis Jones, Bleddyn Davies a Eiliw Dafydd (Ceredigion); Gwenno Davies (Clwyd); Beca Glyn, Gwen Thomas a Meinir Owen (Eryri); Andrew Joseph a Elen Williams, (Morgannwg); Katie Matthews ac Alistair Morgan, (Gwent); Manon Williams a Anna Prysor Jones (Meirionnydd); Bryony Wilson, (Maldwyn); Tania Hancock, Delun Evans a Samuel Kurtz (Sir Benfro); Matt Price, (Maesyfed); Rhys Richards, Fflur Powell-Roberts a Eiliw Haf Griffith (Ynys Môn); Iwan Meirion, Dafydd Jones, Kate Miles, Rhodri Evans, Hedd Pugh a Jayne Jones (Cyfetholedig); Ed Dungait (FfCCFFI).

HEFYD YN BRESENNOL: Mared Jones (Cyfarwyddwr Dros Dro CFFI Cymru); Catrin James (Swyddog Datblygu'r Iaith Gymraeg); Helen Evans (Swyddog Gweithrediadau Dros Dro); Rhodri Lewis, (Swyddog Cyllid a Chystadlaethau); Megan Jones (Cynorthwydd Gweinyddol); Ffion Wright Evans, (Trefnydd Sir Maldwyn); Eleri Evans, (Trefnydd Sir Eryri), Edna Jones (Cadeirydd Cymdeithas Staff).

C/61/2021

CROESO A CHYFLWYNIADAU

Wrth agor y cyfarfod, croesawodd Katie Davies yr holl aelodau i gyfarfod mis Mai y Cyngor.

Cafodd y cynrychiolwyr eu hysbysu y byddai'r cyfarfod yn cael ei recordio er mwyn pwrpas y cofnodion ac yn anffodus, o achos problemau technegol, ni fyddai Hefin Jones yn gallu darparu cyfleusterau cyfieithu ond fe annogwyd yr aelodau i siarad yn iaith o'u dewis ac fe gaiff ei gyfieithu fel fydd ei eisiau. Fe fydd Vevox yn cael ei ddefnyddio unwaith eto er pwrpas pleidleisio gyda manylion cyswllt i'w gael ar y wefan.

Fe rannwyd calendr gyda aelodau y Cyngor, gan nodi cyfarfodydd a fynychwyd gan y cadeirydd, is-gadeirydd a'r cyfarwyddwr ers y cyfarfod diwethaf.

Cafodd yr aelodau eu diweddarau ynglyn a'r gweithgareddau canlynol a gynnalwyd yn ddiweddar yn cynnwys:

- Eisteddfod Rhithiol CFFI Cymru
- Cystadlaethau Siarad Cyhoeddus Rhithiol
- Cynhadledd Materion Gwledig
- Maniffestp CFFI
- Ail-lansio Podlediad (Podcast)
- Dosbarthau Meistr (Masterclass)
- Cafodd nifer o gyfarfodydd eu cynnal ers y cyfarfod diwethaf, ac 'roedd yn galonogol i weld drwy'r cyfryngau cymdeithasol fod llawer o glybiau wedi dechrau cyfarfod eto drwy ddilyn canllawiau Covid presennol.

Rhodddwyd croeso 'nol i Helen Evans fel Swyddog Gweithrediadau dros dro gyda CFFI Cymru.

Estynwyd llongyfarchiadau i Sam Kurtz (Sir Benfro) ar ei etholiad yn ddiweddar fel Aelod o'r Senedd.

C/62/2021

YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Emma Rees (CFFI Brycheiniog)' Nerys Lewis (CFFI Gwent), Delun Evans (CFFI Sir Benfro).

C/63/2021

DATGANIAD O DDIDDORDEBAU

Cafodd aelodau'r pwyllgor eu hatgoffa am yr angen i ddargan unrhyw ddiddordeb oedd ganddynt yn y busnes yn cael ei drafod. Datganodd Mareid ei diddordeb ynglyn a'i rôl ddeublyg ar hyn o bryd fel Cyfarwyddwr dros dro gyda CFFI a hefyd yn cynrychioli CAFC fel Aelod etholedig.

C/64/2021

COFNODION

Cafodd cofnodion cyfarfod y Cyngor a gafwyd ar 18fed Mawrth 2021 eu cylchredeg a'u cadarnhau fel record wir a chywir.

Cynigydd: Eyllt Jones

Eilydd: Aled Thomas

C/65/2021

PWYNTIAU GWEITHREDU A MATERION YN CODI O'R COFNODION

Cafodd ei argymhell y dylai'r llythyr a dderbyniwyd oddiwrth Ffederasiwn Eryri ynglyn a newid amrywiaeth oedran yr aelodaeth o fewn CFFI Cymru, a gafodd ei gylchredeg a'i drafod gan aelodau yng nghyfarfod diwethaf o'r Cyngor, gael ei ystyried eto yn y cyfarfod hwn er mwyn cael rhagor o syniadau a chynigion o'r ffederasiynau sirol. Darllenwyd y llythyr fel a ganlyn:

Annwyl Katie a Chyngor CFFI Cymru,

Ysgrifennaf atoch chi ar ran aelodau CFFI Eryri i gynnig y canlynol.

Fel Ffederasiwn, hoffem gynnig i CFFI Cymru ac i holl Ffederasiynau Cymru y dylid trafod newid oedran aelodaeth CFFI Cymru.

Yn dilyn trafodaeth yn ein Pwyllgor Gwaith, a gyda'n clybiau, mae Aelodau CFFI Eryri yn credu ei bod hi'n bryd gwneud newid a chychwyn y drafodaeth am oedran yn y CFFI i baratoi at fis Medi 2021, gan obeithio y byddwn ni'n gallu dod ynghyd wyneb yn wyneb bryd hynny.

Mae'r drafodaeth wedi digwydd sawl gwaith dros y blynyddoedd, ond nid oes unrhyw beth wedi deillio o hynny. Hoffai CFFI Eryri drafod cynnig i godi'r oedran aelodaeth i 30 mlwydd

oed. Bydd nifer o aelodau ledled Cymru yn colli cyfleoedd os newidir yr oedran yn ôl i 26 ym mis Medi.

Fel y gwyddom ni oll, mae colli bron iawn blwyddyn a hanner (erbyn Medi 2021) o weithgareddau wyneb yn wyneb wedi bod yn ergyd drom i'n haelodau a'n clybiau. Mewn gwirionedd, bydd yn rhaid i ni weithio'n hynod o galed i godi'r clybiau yn ôl ar eu traed pan fyddwn ni'n gallu gwneud hynny. Yn ychwanegol, y peth gwaethaf a allai ddigwydd i unrhyw glwb ar hyn o bryd yw colli aelodau hŷn. Mae'r aelodau hyn yn gallu cynnig cymorth enfawr i aelodau iau a swyddogion y clybiau, a helpu i sicrhau eu llwyddiant at y dyfodol.

Roeddwn i'n ymchwilio i wledydd eraill megis Iwerddon Gogledd Iwerddon a'r Alban, ac mae oedran aelodaeth y tri hyd at 30 mlwydd oed neu hyd yn oed yn hŷn. Rydym ni'n hoffi syniad yr Alban – ymuno'n 14 a bod yn aelod iau nes byddwch chi'n 19, yna aelod hŷn nes byddwch chi'n 28, ac yn olaf, aelod cyswllt sy'n dal yn gallu cystadlu nes byddwch chi'n 30.

Hoffwn i ofyn a ydych chi'n credu ei bod hi'n bryd gwneud newid i sicrhau dyfodol llwyddiannus i'r Ffederasiwn trwy gymorth amhrisiadwy gan yr aelodau hŷn?

Os ydych chi o blaid newid, credaf mai dyma'r adeg i wneud hynny! Dylem ni groesawu'r newid i sicrhau newid!

Rydym ni'n cynnig y canlynol i Gyngor CFFI Cymru:

Codi oedran aelodaeth CFFI Cymru i 13-30, a chaniatáu i'r aelodau dan 13 sydd eisoes yn aelodau i barhau â'u haelodaeth.

Edrychwn ymlaen at y drafodaeth a wnaiff ddeillio o'r llythyr hwn, gan obeithio y caiff y cynnig ei ystyried yn deg.

Yn gywir

Eleri Evans

Trefnydd

Ar ran Beca Glyn, Cadeirydd CFFI Eryri ac Aelodau CFFI Eryri

Annogwyd sylwadau o'r llawr a chafwyd drafodaeth faith gyda chyfraniadau gan bron bob gynrychiolwr gyda llawer gwahanol barn:

'Roedd Ynys Môn wedi rhedeg Pôl Google diddorol mewn dwy rhan ac yn dangos fod y canran fwyaf yn cefnogi codi'r oedran i 13 yn y pen isaf a hefyd i 30 yn y pen uchaf.

Y teimlad cyffredinol yn Clwyd oedd hefyd i gefnogi'r cynnig newydd o 13-30.

'Roedd Maldwyn, Ceredigion a Sir Gâr o'r barn y byddai'n haws i barhau gyda'r oedran presennol o 10 – 28 sydd yn cyfateb gyda FfCCFFI. Teimlai aelodau Morgannwg y byddent yn hoffi cael esboniad o sut fyddai'r system yn gweithio ac i sicrhau na fyddai'r aelodau o dan unrhyw anfantais ariannol dros y flwyddyn diwethaf. Ystyrient ei fod yn bwysig i gael aelodau o oedran 10 – 13 ac effallai dylid ail-edrych y rhaglen i grŵp yr oedran yna. 'Roedd Sir Benfro hefyd yn gefnogol o aelodau 10 – 13 oed fel y grŵp mwyaf cryf a fu'n mynychu drwy'r cyfnod clo ac nid oeddynt yn cefnogi ymestyn yr oedran hŷn i 30.

Cynigodd Gwent gyfaddawdu gyda oedran dechrau o 11 efallai yn fwy addas.

Cryfhäodd Eryri eu achos gan bwyntio allan drwy ymestyn yr oedran hŷn i 30, y byddai'n sicrhau ffocws ar agwedd gymdeithasol a iechyd meddwl y grŵp oedran yna, sydd wedi bod yn asgwrn-cefn i'r clybiau ac fe fyddai'n help i ailddarganfod ar ôl Covid. Mae'n bwysig i edrych ar ôl Ffermwyr 26+ ac fe all y newid hyn fod yn amserol i sicrhau llwyddiant CFFI wedi'r Covid. Hefyd, yn aml ar ôl 3 mlynedd, mae llawer o'r oedran 13 yn colli diddordeb yn CFFI ond wrth iddynt ddechrau pan yn 13 oed, 'rydym yn fwy tebygol o'u cadw'n hirach gan eu bod yn gwerthfawrogi fwy beth sydd gan CFFI i'w gynnig.

- 1) Rhoddwyd cynnig ymlaen i ddelio gyda'r newid oedran o dan drafodaeth fel dwy eitem wahanol (yn cychwyn gyda'r grŵp oedran hŷn)

Cynigydd: Beca Glyn (Eryri)
Eilydd: Rhys (Ynys Môn)

- 2) Y cynnig i barhau gyda'r oedran presennol (10 – 28)

Cynigydd: Aled Thomas (Morgannwg)
Eilydd: Niall Evans (Brycheiniog)

Cafodd cynnig 1 ei drechu.

Diolchodd Katie Davies, Cadeirydd y Cyngor, i Eryri am ddod a'r mater hwn i lefel Cymru a diolchodd i bawb am eu cyfraniadau gwerthfawr.

Fe gaiff gynrychiolwyr amser i ystyried unrhyw gynnigion a roddwyd ymlaen cyn cael pleidlais yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Gorffennaf.il.

Fe gaiff unrhyw newidiadau eu mabwysiadu'n ffurfiol yn CCB y ffederasiwn ym mis Medi.

C/66/2021

GOHEBIAETH

Derbynwyd llythyr gan Morgannwg yn gofyn a ddylai'r Cyngor gyfarfod yn fwy aml – un a'i yn fisol neu bob 6 wythnos? Adroddodd Elen Williams fod aelodau Morgannwg yn pryderu a oedd eu lleisiau yn cael eu clywed ynglyn a gweithredu newidiadau ayb, yn enwedig drwy ddefnyddio'r platfform rhithiol.

Gofynnodd Caryl Haf i'r aelodau edrych ar y Calendr gan bwysleisio fod Staff Sirol, Cadeiryddion Sirol ac Is-bwyllgorau wedi bod yn cyfarfod yn llawer mwy aml dros y 12+ mis diwethaf yn sicrhau fod mwy o gyfathrebu'n awr nag erioed. Teimlad cyffredinol yr aelodau'n bresennol oedd y bod y mynychder yn fwy na digon. Sicrhäodd Katie, Caryl a Mared yr aelodau nad oedd dim yn cael ei guddio ac yn ystod y cyfnod Covid, mae'n bosib galw cyfarfod o'r Cyngor gyda rhybudd o ddim ond 48 awr os fydd angen.

Gofynnodd Kate Miles, fel ymddiriedolwyr, a allai aelodau cyfethol dderbyn gwybodaeth yn fwy rheolaidd? Cytunwyd y gallai'r daflen newyddion wythnosol, Info, gael ei ddanfôn i'r ymddiriedolwyr yn ogystal a'r Siroedd.

C/67/2021

I DDERBYN ADRODDIADAU GAN YR IS-BWYLLGORAU

Cystadlaethau – Miss Katie Court

Cyngor i nodi:

1. Cyfarfodd y pwyllgor ar ddydd Mawrth 30ain Mawrth.

2. Trafododd y Pwyllgor y Siarad Cyhoeddus Rhithiol a chadarnhau pa ddiwrnodau y byddai cyfweliadau Aelod y Flwyddyn a Cais am Swydd yn cymryd lle.
3. Trafododd y Pwyllgor gystadlaethau'r Sioe Frenhinol Rhithiol, yn enwedig bridiau barnu stoc. Cytunodd y Pwyllgor i ddal at Texel Glas, Cobiau adran D a Gwartheg yr Ucheldir ac fe gaiff y Cymdeithasau eu cysylltu ynglyn a chefnogaeth i'r Siroedd drwy ddarparu lluniau ac enwau'r beirniaid. Cytunwyd hefyd y byddai cystadlaethau barnu stoc yn cael eu cynnal dros Zoom ar ddydd Sul 27ain Mehefin 2021 a Gêm Genhedlaeth y Cadeirydd ar 10fed Gorffennaf.
4. Trafododd y pwyllgor y cyfle i weithio gyda Cywain ar gystadleuaeth goginio i aelodau CFFI Cymru
5. Cafwyd hefyd drafodaeth ynglyn a Gwyl Benwythnos a'r posibilrwydd o gynnal y benwythnos ym mis Awst – 14eg a 15fed.
6. Nodwyd cyfarfod nesaf y pwyllgor Cystadlaethau ar 25ain Mai 2021.

Cyngor i gymeradwyo:

Trafodaethau'r Cyngor a chytundeb:

a) Cyllid a Rheoli – Kathryn Jones

Cyngor i nodi:

1. 'Roedd Claire Powell wedi gadael i fynd ar gyfnod mamolaeth (ychydig yn gynt na disgwyl) ac 'rydym i gyd yn ei llongyfarch ar enedigaeth ei merch Seren.
2. Cafodd y pwyllgor eu diweddarau ynglyn a grantiau a geiswyd am yn ddiweddar yn cynnwys £4,000 arall o Grant Treth Cyngor Sir Powys yn dod a'r cyfanswm i £10,000. Mae rhan 2 o'r CRF wedi agor ac mae cais wedi ei wneud am grant o dros £80,000. Mae'r grant am gostau gwirioneddol ac yn cyfro costau gweithredu o Ebrill i fis Medi a chostau i helpu ail-agor CFFI Cymru. 'Rydym wedi cynnwys Pecynau Covid-19 i bob Sir gyda cyfarpar i'r Prif Swyddfa. Mae yna hefyd swm at brosiect i ddatblygu system 'track & trace' i CFFI Cymru, y Siroedd a'r Clybiau.
3. Cyn mynd ar ei chyfnod mamolaeth, 'roedd Claire wedi llwyddo i derfynu'r cyfrifon ar ran CFFI Cymru ac mae Ashmole yn gobeithio cyflawni'r archwiliad yn fuan eleni, tua diwedd y mis hwn neu'n gynnar y mis nesaf.
4. Mae'r gwaith wedi bod yn hirwyntog ac yn dal i fynd ymlaen ynglyn newid ac awdurdodi llofnodion, rhif pin ayb er mwyn i Rhodri Lewis gael mynediad i gyfrifon banc CFFI Cymru. Mae Claire, cyn iddi hi orffen a Rhodri ers iddo gymryd drosodd wedi bod mewn cysylltiad cyson a gobeithio caiff bopeth ei drefnu cyn diwedd yr wythnos.
5. Mae Adolygiad y Gyfundrefn ar ei ffordd gyda Menter a Busnes ac fe awgrymwyd i hysbysebu swydd y Prif Weithredwr ar unwaith. Mae hyn i wneud yn siwr y bydd yr ymgeisydd llwyddianus gyda ni mor gynted ag sy'n bosibl er mwyn gallu bod yn rhan o'r adolygiad mor gymaint a phosibl. Er ein bod yn mynd i hysbysebu yn fuan iawn, gallai gymryd fyny at 4 mis i gael y person iawn mewn lle. Cafodd y teitl a'r cyflog eu cyflwyno a'u cytuno yn Cyllid a Rheoli ddydd Mawrth.

6. Mae cronfa Ymrwymiad Cymdeithasol ar ei ffordd, hefyd yn cael ei weithredu gan Menter a Busnes. `Rydym wedi derbyn cynllun cynhwysfawr sydd wedi cael ei arwyddo gan Cyllid a Rheoli.
7. Mae cronfa Cynnal ac Ystwythder yn parhau i gael ei drafod ac mae gan LANTRA nifer o weithdai hyfforddiant a phecynau y gallant weithio gyda ni.
8. Cafwyd adroddiad gan Mared, y Cyfarwyddwr dros dro, ynglyn a sefyllfa staff a chyfarfodydd a gafodd eu cynnal. Fe fydd yr adroddiad i'r pwyllgor nesaf dipyn yn hirach gan fydd wedi gwario fwy o amser gyda'r Mudiad.

CYNGOR I GYMERADWYO:

Dim i'w gymeradwyo.

Trafodaeth Cyngor a chytundeb:

Dim trafodaeth bellach

b) Digwyddiadau a Marchnata – Aled Thomas

Cyngor i nodi: CYNGOR I NODI

1. Mae Marchnad CFFI wedi'i lansio. Mae aelodau wedi creu rhai clipiau byr "Cwrdd a'r Gwneuthurwr" a fydd yn cael eu rhannu ar ein cyfryngau cymdeithasol i roi cyhoeddusrwydd i'r Farchnad. Bydd hefyd ffair grefft ar-lein ar gyfer aelodau'r Farchnad CFFI i'w chynnal diwedd mis Mai.
2. Mae'r sesiynau CFFI yn parhau i redeg, gyda 1 sesiwn ar ôl ym mis Mai a 4 arall wedi ei drefnu erbyn mis Mehefin. Mae 2 sesiwn Gohebwy'r Ifanc wedi digwydd yn ddiweddar ar y cyd gyda Bro360 / Golwg, ac mae posibilrwydd o aelodau'n cyflwyno eu herthyglau a'u straeon i wefan CFFI Cymru ochr yn ochr â gwefan Bro 360. Mae CFFI Cymru yn gobeithio datblygu'r berthynas â Bro 360 / Golwg gyda'r sesiynau hyn a gobeithio am ddigon o ddiwedd gan aelodau CFFI Cymru.
3. Mae'r gyfres newydd o bodlediadau wedi dechrau, gyda 3 pennod wedi cael eu rhyddhau yn barod. Mae'r pennod nesaf yn cael ei rhyddhau heno. Wrth symud ymlaen bydd pennod podlediad yn cael ei rhyddhau bob yn ail wythnos, gydag un podlediad Cymraeg ac un Saesneg yn cael ei ryddhau bob mis.
4. Mae'r pwyllgor wedi gofyn am fwy o gysondeb o ran cynnwys y cyfryngau cymdeithasol a'r wefan.
5. Bydd CFFI Cymru yn parhau i ddiweddarau'r wefan mewn perthynas â'r canllawiau COVID diweddaraf.

CYNGOR I GYMRERADWYO

1. Ffair grefft ar-lein i'w gynnal ar y 29ain o Fai ar Facebook.

c) Rhyngwladol – Niall Evans

Cyngor i nodi:

1. Cafwyd cyfarfod rhwng CFFI Cymru a Ffermwyr Ifanc yn yr Almaen i ystyried trefnu cyfnewidfa newydd.
2. Yn ddiweddar cynhalwyd webinar gan gynrychiolwyr gyrfaedd Ilaeth Seland Newydd i ddarparu gwybodaeth pellach o'r cyfleoedd sydd ar gael drwy eu rhaglen. Maent yn fodlon creu fwy o leoedd i'r ysgoloriaeth ac mae ceisiadau yn awr yn agored i'r rhaglen.

Cyngor i gymeradwyo:

Dim i'w gymeradwyo

Trafodaethau Cyngor a chytundeb:

Dim trafodaeth bellach.

d) Materion Gwledig – Clare James

Cyngor i nodi:

1. 'Rydym yn danfon ein diolch i Sian Thomas sy'n gadael ei rôl o edrych ar ol pwyllgor Materion Gwledig ac yn croesawu Helen Evans sy'n ymuno a ni ar seconiad o'r Sioe Frenhinol a fu'n gweithio gynt i CFFI Cymru ac felly gyda llawer o brofiad ym Materion Gwledig.
2. Cafodd Cynhadledd Materion Gwledig ei gynnal yn rhithiol eleni ar y ddwy noswaith 26ain a 28ain o Ebrill. Thema'r gynhadledd eleni oedd 'i ysbrydoli' ac fe hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch i'r holl siaradwyr ysbrydoledig a hefyd CCF am eu nawdd hael.
3. Gan ei bod yn wythnos amwybyddiaeth iechyd meddwl, mae'n werth nodi fod Sylfaen DPJ yn cynnal noswaith amwybyddiaeth iechyd meddwl yn y byd amaeth ar 29ain Mehefin am 7.00 yh.
4. 'Rwyf yn falch i gyhoeddi y bydd cynllun Menter Moch yn cael ei redeg unwaith eto eleni lle gaiff 6 aelod gyfle i orffen chwech mochyn gan weithio gyda Menter a Busnes. Mae'r dyddiad cau i ymgeisio ar 28ain Mai..
5. Cynllun Wŷn CFFI Cymru - mae'r pwyllgor ynghyd a Dunbia a Sainsbury wedi sicrhau newid i grid talu y cynllun wŷn ac yn gweld pwysau wŷn yn talu 15 – 22kg (o'r blaen yn 15 – 20kg). Mae'r cynllun yn talu bonws ar yr wŷn i gyd sy'n cyrraedd y nôd.tra fydd y Ffederasiwn Sirol lle mae'r unigolyn yn aelod hefyd yn elw'n ariannol. Mae cyfarfod o CFFI, HCC a Dunbia ar 20fed o Fai ar Wyn Cymraeg
Am ragor o wybodaeth.ar ypwytiau hyn, cysylltwch gyda Helen Evans os gwelwch yn dda.

Cyngor i gymeradwyo:

Dim

Trafodaethau Cyngor a chytundeb:

Dim trafodaethau pellach.

e) Fforwm Ieuenctid – Elin Rattray

Cyngor i nodi:

1. Ers y cyfarfod diwethaf o'r Cyngor mae Pwyllgor Fforwm Ieuenctid wedi cynnal noson adloniant "TaskMaster" gyda Alfie Benbow.
2. Mae noson arall wedi ei threfnu ym mis Mehefin – noson Bingo gyda Alfie Benbow.
3. Mae'r aelodau wedi bod yn trafod cynnal Ffair Gyrfäoedd Rhithiol a Webinariau gyda Cholegau Amaethyddol.

Cyngor i gymeradwyo:

Dim i gymeradwyo.

Trafodaethau Cyngor a chytundeb:

'Doedd dim trafodaethau pellach.

f) Grwp Adeilad – Dafydd Jones

Cyngor i nodi:

Adroddodd Dafydd nad oedd cyfarfod o'r Grwp Adeilad wedi'i gynnal ers y cyfarfod Cyngor diwethaf. Mae'r cyfarfod nesaf i'w gynnal ym mis Mehefin.

Cyngor i gymeradwyo:

Dim i'w gymeradwyo..

Trafodaethau a chytundeb Cyngor:

'Doedd dim trafodaeth bellach.

g) Personél a Thâl – Caryl Haf

Cyngor i nodi:

Adroddodd Caryl Haf fod Nia Lloyd a Sian Thomas yn awr wedi gadael CFFI Cymru a bod Catrin James hefyd yn gadael ar ddiwedd y mis. Mae swydd y Swyddog Datblygu'r Gymraeg yn cael ei hysbysebu'n ffurfiol gan gydweithio gyda Llywodraeth Cymru a gofynnwyd i'r aelodau rannu'r gwybodaeth am y swydd hwn.

Cafodd yr aelodau eu hyrwyddo ynglyn a sefyllfa bresennol staff CFFI Cymru fel:

Mared Jones (Cyfarwyddwr dros dro) 2 ddiwrnod yr wythnos (dros ddydd Llun, dydd Mercher a dydd Gwener)
Rhodri Lewis (Swyddog Cyllid dros dro) 2 ddiwrnod yr wythnos (dydd Mawrth a dydd Mercher)
Helen Evans (Swyddog Gweithrediadau a Diogelwch dros dro) 2 ddiwrnod yr wythnos (dydd Mercher a dydd Iau)
Tomos Rees (Swyddog Marchnata a Chyfathrebu dros dro) 2 ddiwrnod yr wythnos (dydd Llun a dydd Iau).

Megan Jones (Cynorthwydd Gweinyddol) 2 ddiwrnod yr wythnos

(dydd Mawrth a dydd Mercher)
Claire Powell - Cyfnod Mamolaeth
Ann Hammonds (Glanh wraig Swyddfa) Furlough

Cyngor i gymeradwyo:

Dim i'w gymeradwyo.

Trafodaethau a chytundeb Cyngor:

`Doedd dim trafodaeth bellach.

h) Is-Gr p Polisi – Miss Katie Davies

Cyngor i nodi:

1. Polisi'r iaith Gymraeg

Cyngor i gymeradwyo: y gwaith ar y polisi yn ei gyfanrwydd

Cynigydd: Dafydd Jones

Eilydd: Sam Kurtz

2. Polisi 'E-Safety'

Mae'r polisi yma yn dal i gael ei ystyried gan y Siroedd.

Cyngor i gymeradwyo:

Dim i'w gymeradwyo.

Trafodaeth a chytundeb Cyngor:

Dim trafodaeth bellach.

I ddiweddu fe gafodd adroddiadau y Cyngor i gyd eu cymeradwyo gan yr aelodau'n bresennol.

Cynigydd:

Eilydd:

C/68/2021

FfCCFFI

Diweddariad gan FfCCFFI

1. Croesawodd Katie Davies Ed Dungait ac fe adroddodd ar waith FfCCFFI. Rhoddodd gadarnhad fod 'YFC on Track' yn mynd yn wych. Maent yn gobeithio y bydd diwedd glo Cystadlaethau Cenedlaethol yn cael eu cynnal yn ystod y penwythnos gyntaf ym mis Hydref ond mae hyn eto i'w gadarnhau.

Cafodd yr aelodau eu hannog i ddilyn gweithgareddau FfCCFFI ar Facebook.

C/69/2021

EITEMAU AGENDA & DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Nodwyd dyddiad y cyfarfod nesaf o'r Cyngor fel 8fed o Orffennaf 2021 am 7.00 yh drwy Zoom.

C/70/2021

UNRHYW FUSNES ARALL

Rhoddwyd dymuniadau gorau i Catrin James i'w dyfodol a diolchwyd iddi am ei chyfraniad i'r Mudiad.

Diolchodd Katie Davies i'r aelodau am drafodaethau rhagorol a phwysig a gafwyd heno a diolchodd i bawb am eu cyfraniadau. Cafodd yr aelodau eu hatgoffa ei bod yn Wythnos Iechyd Meddwl ac fe anogodd y Cadeirydd i bawb edrych allan a gofalu am ei gilydd.

Gan nad oedd unrhyw fusnes pellach fe ddaeth y cyfarfod i ben am 8.57 yh.

Llofnod: _____ **Dyddiad:** _____